# COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU
# CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 24 MAI 2016 YN NHŶ HASTINGS

**Yn bresennol:** Mr. Owen Watkin (Cadeirydd); Mr. Ceri Stradling; Mr. David Powell; Mrs. Julie May a Mr. Theodore Joloza.

**Swyddogion CFfDLC yn bresennol:** Mr. Steve Halsall (Prif Weithredwr); Mr. Matt Redmond (Dirprwy Brif Weithredwr); Mr. David Carr (Rheolwr Cyllid); Mrs. Rachel Williams (Rheolwr Cymorth Busnes); Mr. Ross Evans (Swyddog Arolygon); Mr. Daniel Mosley (Swyddog Arolygon); Miss Caroline Roe (Cynorthwyydd Swyddfa).

**Amser Dechrau:** 09:30
**Amser Gorffen:** 11:50

**Ymddiheuriadau:** Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

1. **Datganiadau o Fuddiant**

1.1. Ni wnaed unrhyw Ddatganiadau o Fuddiant.

## 2. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd

2.1. Cyhoeddodd y Cadeirydd, yn dilyn cyhoeddi Cabinet a Gweinidogion newydd Llywodraeth Cymru, fod yr Athro Mark Drakeford, AC, wedi'i benodi yn Ysgrifennydd newydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol.

2.2. Nododd y Cadeirydd fod y Comisiwn wrthi'n disgwyl cyfarwyddyd pellach gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â chyfarwyddyd y llywodraeth newydd ar gyfer diwygio llywodraeth leol.

2.3. Cyhoeddodd y Cadeirydd, tra bydd Llywodraeth Cymru'n ystyried y cyfeiriad priodol i fynd iddo ar gyfer diwygio Llywodraeth Leol, y bydd y Comisiwn yn cynnig cynnal deialog agored gyda Llywodraeth Cymru er mwyn darparu cyngor a chymorth wrth ddatblygu syniadau lle bo'n briodol.

## 3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 26 Ebrill 2016

3.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Ebrill 2016 fel cofnod cywir o'r materion a ystyriwyd, yn amodol ar nifer o fân ddiwygiadau drafftio.

## 4. Materion yn Codi

4.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 9 Mai 2016 gan y Prif Weithredwr ar Faterion yn Codi.

4.2. **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad yn gyffredinol gan nodi'r materion i'w trafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod hwn, a **nodwyd** hefyd cynnydd wedi'i ddiweddaru ar y materion canlynol:

- (Mater 4) Teithio a Chynhaliaeth – Cyswllt i'w wneud â Neil Wicks o'r Amgueddfa Genedlaethol i gael cyngor ar ddarparwyr yswiriant priodol.

Gosodwyd nod o dri mis ar gyfer penderfyniad ar y mater hwn, i'w benderfynu erbyn diwedd mis Medi 2016. **Rheolwr Cymorth Busnes**

- (Mater 5) Telerau ac Amodau Staff – dileu amserlen Mehefin 2016 gan ein bod yn disgwyl cyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru ar ddiwygio Llywodraeth Leol. **Prif Weithredwr**
- (Mater 6) Gwasanaethau Cyfreithiol – Disgwyl ymateb gan Adran Gyfreithiol y Llywodraeth. **Rheolwr Cymorth Busnes**
- (Mater 8) Safonau'r Gymraeg – Mae adroddiad i dynnu sylw at y cynllun trosglwyddo i'w gyflwyno i gyfarfod y Comisiwn ym Mehefin 2016. **Prif Weithredwr/ Rheolwr Cymorth Busnes**
- (Mater 11) Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus – dileu dyddiad yn yr adroddiad gan ein bod yn disgwyl cyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru ar ddiwygio Llywodraeth Leol. **Prif Weithredwr**
- (Mater 12) Gwobr Iechyd y Gweithle Bach – y Comisiwn i baratoi i ymgeisio am y wobr hon. **Rheolwr Cymorth Busnes**

5. **Adeiladau**

5.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 16 Mai 2016 gan y Rheolwr Cymorth Busnes.

5.2. **Nododd** y Comisiwn y cyngor cyfreithiol a dderbyniwyd a derbyniodd yr adroddiad a ddarparwyd gan y Rheolwr Cymorth Busnes.

5.3. **Cytunodd** y Comisiwn y byddai'n ddoeth gofyn i Lywodraeth Cymru, fel y tenant cyfreithiol, ystyried y posibilrwydd o roi Rhybudd Adran 26 i'r Landlord yn gofyn am estyniad newydd i'r brydles, yn absenoldeb y Landlord yn methu â darparu cais yn ffurfiol i adnewyddu prydles yr Adeiladau drwy rybudd Adran 25, ac i'r Rheolwr Cymorth Busnes drefnu i'r mater gael ei ystyried yng Nghyfarfod y Comisiwn ym mis Hydref 2016.

**6. Ardal Gwella Busnes Caerdydd**

6.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 16 Mai 2016 gan y Rheolwr Cymorth Busnes a ddywedodd wrth aelodau am y cyngor cyfreithiol a dderbyniwyd yn ymwneud ag Ardal Gwella Busnes arfaethedig Caerdydd.

6.2. Fe wnaeth y Comisiwn gydnabod derbyn y Rhybudd Pleidlais ar gyfer yr ardal gwella busnes arfaethedig ar gyfer Canol Dinas Caerdydd.

6.3. **Cytunodd** y Comisiwn yn ffurfiol i beidio â chymryd rhan yn y Bleidlais.

6.4. Yn amodol ar y Bleidlais yn mynd o blaid cyflwyno Ardal Gwella Busnes Caerdydd ar gyfer yr ardal, cymeradwyodd y Comisiwn y taliad trethi yn unol â'r arweiniad cyfreithiol a gafwyd.

**7. Rheoli Risg – Y Gofrestr Risgiau**

7.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 13 Mai 2016 gan y Rheolwr Cyllid.

7.2. **Nodwyd** yr adroddiad.

7.3. Cytunwyd i dderbyn y gofrestr yn amodol ar ddiwygiadau i risgiau CR7, CR10 a CR11 er mwyn eu diweddaru, a dileu risg CR12 yn ymwneud â drafftio gorchmynion arolygon cymunedol gan fod y risg bellach wedi'i datrys.

## 8. Adroddiad ar y Gyllideb

8.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 13 Mai 2016 gan y Rheolwr Cyllid mewn perthynas â Chyllideb 2016-17 y Comisiwn hyd yma.

8.2. **Nodwyd** yr adroddiad gan y Comisiwn, a thynnodd sylw at y tanwariant presennol hyd yma. Roedd y Comisiwn o'r farn, o ystyried yr oedi parhaus o ran cychwyn ar y rhaglen arolygon, fod y tanwariant yng nghyllideb 2016-17 yn debygol o barhau.

8.3. Nodwyd bod cronfeydd dros ben 2015-16 wedi'u hadnabod yn rhy hwyr yn y flwyddyn iddynt gael eu defnyddio'n uniongyrchol gan yr Is-adran Noddi, ac ystyriwyd y dylid osgoi hyn os oes modd ar gyfer 2016-17. **Penderfynwyd** y byddai'r Rheolwr Cyllid yn monitro'r gyllideb drwy'r flwyddyn ac yn adolygu'r sefyllfa mewn perthynas ag ildio cronfeydd yn ôl i'r Is-adran Noddi erbyn mis Rhagfyr 2016.

8.4. **Derbyniwyd** yr Adroddiad gan y Comisiwn.

## 9. Adroddiad ar Gynnydd Arolygon

9.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 17 Mai 2016 gan y Dirprwy Brif Weithredwr, ynglŷn â datblygiad Arolygon.

9.2. **Nodwyd** yr Adroddiad.

## 10. Gorchymyn Cymunedol Sir Gaerfyrddin 2016

10.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 16 Mai 2016 gan y Swyddog Arolygon ac fe'i cyflwynwyd gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

10.2. Yn dilyn cyngor cyfreithiol, ynglŷn â geiriad a ffurf y templed, a disgrifiad byr o'r manylion a gynhwysir yn y Gorchymyn, **Cytunodd** y Comisiwn i weithredu'r Gorchymyn.

10.3. Fe wnaeth y Cadeirydd lofnodi a selio'r Gorchymyn, a fyddai nawr yn cael ei gyhoeddi a'i ddosbarthu.

## 11. Adroddiad Blynyddol y Cynllun Iaith Gymraeg

11.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 16 Mai 2016 gan y Rheolwr Cymorth Busnes mewn perthynas ag Adroddiad Blynyddol Cynllun Iaith Gymraeg 2015-16.

11.2. **Nodwyd** a **Derbyniwyd** yr adroddiad gan y Comisiwn, a thynnodd sylw at y gwaith sydd wedi'i wneud i roi'r gweithdrefnau amrywiol ar waith o fewn y flwyddyn, gan ddweud y bydd hyn yn gymorth o ran gweithredu unrhyw

Safonau'r Gymraeg a bennir yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

## 12. Calendr Digwyddiadau

12.1. **Nodwyd** y Calendr.

12.2. Ystyriwyd a oedd angen i'r Comisiwn gynnal cyfarfodydd misol, yn ystod y bwlch presennol, a holodd a fyddai'n fuddiol i'r Comisiwn gynnal cyfarfodydd yn llai aml, hyd nes bod rhaglen waith wedi'i chytuno gyda Gweinidogion Cymru.

12.3. **Derbyniwyd** y byddai hyn yn cael ei ailystyried yng nghyfarfod y Comisiwn ym mis Gorffennaf, gyda'r rhagdybiaeth gychwynnol i atal cyfarfodydd Awst a Medi; gan arwain o bosibl at gyfarfodydd eraill yn y flwyddyn, yn amodol beidio â derbyn unrhyw gyfarwyddyd gan y Gweinidogion.

## 13. Unrhyw Fusnes Perthnasol Arall

13.1. Llythyr a dderbyniwyd gan Gomisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus yn hysbysu'r Comisiwn y gosodwyd iddynt y dasg o gynnig cyngor i Weinidog Cymru, ynglŷn â Thâl Uwch Aelodau Staff, a gan fod y Comisiwn yn dod o fewn eu cylch gorchwyl, gall fod yn ofynnol i ni ddarparu tystiolaeth neu wybodaeth bellach.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: Dydd Mawrth 28 Mehefin 2016**